

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mawrth 2022

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydyn ni'n ysgrifennu atoch yn dilyn ein hymateb dyddiedig 7 Mawrth 2022, pan wnaethom ddweud bod cais wedi cael ei wneud i gyflenwr ein cyhoeddiadau mewn gorsafoedd, Worldline, am gopi o'u sgriptiau o gyhoeddiadau Saesneg.

Rydyn ni bellach wedi derbyn ymateb gan Worldline, sydd wedi cyfeirio at Adran 12(1) Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) ('y Ddeddf'), sy'n caniatáu i awdurdod cyhoeddus wrthod cais os byddai'r gost o ddarparu'r wybodaeth i'r ymgeisydd yn fwy na'r 'terfyn addas' fel y'i diffinnir gan y Ddeddf a Rheoliadau Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004. Yn yr achos hwn, byddai angen i Worldline fynd ati i gasglu'r sgriptiau angenrheidiol. Nid yw'r gwaith o gasglu a darparu'r sgriptiau yn rhan o'r cytundeb gwasanaeth arferol; felly byddai cost a fyddai'n fwy na'r terfyn o £450.

Amgaeir copi o'n Datganiad o Ffioedd i chi ei ystyried pe baech yn dymuno talu am yr wybodaeth hon.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru

Hawliau Apelio

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".